OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 407 (Cy. 73)

2024 No. 407 (W. 73)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

The Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("y Ddeddf").

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn nodi'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt, ac yn eu diffinio fel "gwasanaethau rheoleiddiedig". Mae'r mathau o "gwasanaethau rheoleiddiedig" a nodir yn y Ddeddf yn cynnwys "gwasanaethau cartrefi gofal". Mae adran 2(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau nad yw gwasanaethau penodol yn "gwasanaethau rheoleiddiedig".

Mae adran 27 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i osod, mewn rheoliadau, ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer hwn i wneud Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1264 (Cy. 295)) ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig").

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made under powers given to the Welsh Ministers by the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) ("the Act").

Part 1 of the Act sets out the social care services to which the Act applies, and defines them as "regulated services". The types of "regulated services" set out in the Act include "care home services". Section 2(3) gives the Welsh Ministers the power to prescribe in regulations that particular services are not "regulated services".

Section 27 of the Act gives the Welsh Ministers the power to impose, in regulations, requirements on providers of regulated services in relation to the services they provide. The Welsh Ministers have exercised this power to make the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017 (S.I. 2017/1264 (W. 295)) ("the Regulated Services Regulations").

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu nad yw gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol yn "gwasanaeth cartref gofal" o dan y Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn newid i ba raddau y mae Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn gymwys i wasanaethau llety ac yn gwneud gwahanol ddiwygiadau eraill i'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

These Regulations provide that a local authority intermediate care service is not a "care home service" under the Act. These Regulations also change the extent to which Part 13 of the Regulated Services Regulations applies to accommodation-based services and make various other amendments to the Regulated Services Regulations.

Diben gofal canolraddol yw osgoi derbyn oedolyn yn ddiangen neu cyn pryd i ysbyty neu wasanaeth cartref gofal, a galluogi rhyddhau oedolyn o'r ysbyty yn amserol. Darperir gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol i oedolion mewn llety sydd wedi ei freinio yn yr awdurdod lleol, pan fo'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu gan wasanaeth cymorth cartref awdurdod lleol rheoleiddiedig.

The purpose of intermediate care is to avoid unnecessary or premature admission of an adult to hospital or a care home service, and to enable an adult's timely discharge from hospital. A local authority intermediate care service is provided to adults in accommodation vested in the local authority, where the care and support is provided by a regulated local authority domiciliary support service.

Mae rheoliadau 3 a 4 wedi eu gwneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 2 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (gwasanaethau cartrefi gofal). Effaith y diwygiad yw nad yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrsio neu'r gofal wedi eu darparu i oedolion at ddibenion gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol, yn gyfystyr â "gwasanaeth cartref gofal" o dan y Ddeddf.

Regulations 3 and 4 are made under section 2(3) of the Act and amends regulation 2 of the Regulated Services Regulations (care home services). The effect of the amendment is that the provision of accommodation together with nursing or care, where the accommodation and nursing or care are provided to adults for the purposes of a local authority intermediate care service, does not constitute a "care home service" under the Act.

Nid yw'r eithriad hwn ond yn gymwys pan fo'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu gofal canolraddol, a bo'r gofal yn cael ei ddarparu i bob oedolyn am uchafswm o 16 o wythnosau ar y tro.

This exception only applies where the local authority is responsible for providing intermediate care, and the care is provided to each adult for a maximum of 16 weeks at a time.

Mae Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo gofynion ychwanegol ynghylch safon mangreoedd yn gymwys i wasanaethau llety newydd. Nid yw Rhan 13 yn gymwys i wasanaethau sy'n darparu llety i bedwar neu lai o unigolion. Mae rheoliadau 5 a 6 yn newid i ba raddau y mae gofynion Rhan 13 yn gymwys i wasanaethau llety cofrestredig sy'n ailgyflunio'u mangreoedd er mwyn darparu llety i bump neu ragor o unigolion.

Part 13 of the Regulated Services Regulations deals with the circumstances where additional requirements about the standard of premises apply to new accommodation-based services. Part 13 does not apply to services accommodating four or fewer individuals. Regulations 5 and 6 change the extent to which the Part 13 requirements apply to registered accommodation-based services that reconfigure their premises in order to accommodate five or more individuals.

Bydd yn ofynnol i wasanaethau llety a oedd wedi eu hesemptio yn flaenorol o ofynion Rhan 13 oherwydd eu bod yn darparu llety i lai na phump o unigolion, neu oherwydd eu bod yn darparu llety i fwy na phump o unigolion mewn mangreoedd nad oeddent yng Nghategori A, B nac C, gydymffurfio â gofynion Rhan 13 os yw ailgyflunio'r mangreoedd yn arwain at gynyddu'r capasiti i bump neu ragor o unigolion yn y gwasanaeth. Bydd gofynion Rhan 13 yn gymwys i unrhyw ystafelloedd gwely ychwanegol sydd wedi eu creu oherwydd yr ailgyflunio ac i bob ardal gymunedol ac yn yr awyr agored. Bydd y cynnydd yng nghapasiti'r gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu mewn amrywiad i amodau cofrestru'r gwasanaeth.

Accommodation-based services which were previously exempt from the requirements of Part 13 because they provided accommodation to fewer than five individuals, or because they provided accommodation to more than five individuals in non-Category A, B or C premises will be required to comply with the requirements of Part 13 if reconfiguration of the premises results in an increased capacity of five or more individuals at the service. The Part 13 requirements will apply to any additional bedrooms created because of the reconfiguration and to all communal and outdoor areas. The increased capacity at the service will be reflected in a variation of the conditions of registration for the service.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn gwneud mân ddiwygiadau amrywiol.

Mae rheoliad 9 yn gwneud trefniadau trosiannol mewn cysylltiad â'r diwygiad a wneir gan reoliad 6.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Regulations 7 and 8 make minor, miscellaneous amendments.

Regulation 9 makes transitional arrangements in respect of the amendment made by regulation 6.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Health and Social Services, Welsh Government, Cathays Park, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2024 Rhif 407 (Cy. 73)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Gwnaed	*20 Mawrth 2024*
Yn dod i rym	*31 Mawrth 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(3), 27(1) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf")(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, fel sy'n ofynnol gan adrannau 2(4) a 27(4)(a) o'r Ddeddf, ac wedi cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(b) o'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod copi o'r datganiad gerbron Senedd Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 27(5) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189 o'r Ddeddf.

(**2**) Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 27(5) a 187(2) o'r Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

2024 No. 407 (W. 73)

SOCIAL CARE, WALES

The Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

Made	*20 March 2024*
Coming into force	*31 March 2024*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 2(3), 27(1) and 187(1)(b) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 ("the Act")(**1**).

The Welsh Ministers have consulted such persons as they think appropriate as required by sections 2(4) and 27(4)(a) of the Act and have published a statement about the consultation as required by section 27(4)(b) of the Act. The Welsh Ministers have laid a copy of the statement before Senedd Cymru as required by section 27(5) of the Act.

A draft of these Regulations was laid before Senedd Cymru under section 187(2)(b) and (f) of the Act and has been approved by a resolution of Senedd Cymru(**2**).

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) (Amendment) Regulations 2024.

(**1**) 2016 anaw 2; *see* the definition of "prescribed" in section 189 of the Act.

(**2**) The references in sections 27(5) and 187(2) of the Act to the National Assembly for Wales now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig" ("*the Regulated Services Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(**1**).

Diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

2. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 8.

Gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol: eithriad rhag cwmpas gwasanaethau cartref gofal

3. Yn rheoliad 2(1) (gwasanaethau cartrefi gofal)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (j), yn lle'r atalnod llawn rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (j) mewnosoder—

"(l) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion mewn gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys oni bai—

(i) bod yr awdurdod lleol yn llwyr gyfrifol am ddarparu'r gofal canolraddol, a

(ii) bod y gofal canolraddol yn cael ei ddarparu am ddim mwy nag un wythnos ar bymtheg ar y tro i unrhyw un oedolyn.";

4. Yn rheoliad 2 (gwasanaethau cartrefi gofal), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) At ddibenion paragraff (1)(l) o'r rheoliad hwn—

ystyr "gofal canolraddol" ("*intermediate care*") yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn am gyfnod cyfyngedig at ddiben hybu gallu'r oedolyn i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun drwy—

(**1**) O.S. 2017/1264 (Cy. 295); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/757 (Cy. 142), O.S. 2020/389 (Cy. 87), O.S. 2020/570 (Cy. 131) (wedi ei ddirymu), O.S. 2022/32 (Cy. 184) ac O.S. 2022/1074 (Cy. 226).

(2) These Regulations come into force on 31 March 2024.

(3) In these Regulations—

"the Act" *("y Ddeddf")* means the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016;

"the Regulated Services Regulations" *("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig")* means the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017(**1**).

Amendments to the Regulated Services Regulations

2. The Regulated Services Regulations are amended in accordance with regulations 3 to 8.

Local authority intermediate care service: exception from scope of care home services

3. In regulation 2(1) (care home services)—

(a) at the end of sub-paragraph (j), for the full-stop substitute ";";

(b) after sub-paragraph (j) insert—

"(l) the provision of accommodation, together with nursing or care, to adults in a local authority intermediate care service.

But this exception does not apply unless—

(i) the local authority is solely responsible for providing the intermediate care, and

(ii) the intermediate care is provided for no more than sixteen weeks at a time to any one adult.";

4. In regulation 2 (care home services), after paragraph (4) insert—

"(5) For the purposes of paragraph (1)(l) of this regulation—

"intermediate care" ("*gofal canolraddol*") means the provision of accommodation, together with nursing or care, to an adult for a limited period for the purpose of promoting the adult's ability to live independently in their own home by—

(**1**) S.I. 2017/1264 (W. 295); relevant amending instruments are S.I. 2019/757 (W. 142), S.I. 2020/389 (W. 87), S.I. 2020/570 (W. 131) (revoked), S.I. 2022/32 (W. 184) and S.I. 2022/1074 (W. 226).

(a) osgoi ei dderbyn i ysbyty yn ddiangen,

(b) lleihau hyd unrhyw dderbyniad i'r ysbyty drwy alluogi ei ryddhau yn amserol,

(c) galluogi ei adferiad ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, neu

(d) atal neu ohirio'i dderbyn i wasanaeth cartref gofal;

ystyr "gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol" ("*local authority intermediate care service*") yw gwasanaeth sy'n darparu gofal canolraddol—

(a) a ddarperir gan awdurdod lleol i oedolyn yn unol â'i ddyletswyddau yn Rhan 2 neu 4 o Ddeddf 2014(**1**),

(b) pan fo'r llety a ddefnyddir at ddibenion y gofal canolraddol wedi ei freinio yn yr awdurdod lleol, ac

(c) pan fo unrhyw ofal a chymorth wedi ei ddarparu gan wasanaeth cymorth cartref y mae'r awdurdod lleol wedi ei gofrestru i'w ddarparu."

(a) avoiding unnecessary admission to hospital,

(b) minimising the duration of any admission to hospital by enabling timely discharge,

(c) enabling recovery following discharge from hospital, or

(d) preventing or delaying admission to a care home service;

"local authority intermediate care service" ("*gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol"*) means a service providing intermediate care—

(a) which is provided by a local authority to an adult in accordance with its duties in Part 2 or 4 of the 2014 Act(**1**),

(b) where the accommodation used for the purposes of the intermediate care is vested in the local authority, and

(c) where any care and support is provided by a domiciliary support service the local authority is registered to provide."

Diwygio rheoliad 49

5. Yn rheoliad 49 (cymhwyso Rhan 13), yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth llety—

(a) (i) pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bump neu ragor o unigolion, a

(ii) pan fo'r fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn dod o fewn un o'r categorïau ym mharagraff (2), neu

(b) pan fo'r darparwyr gwasanaethau yn bersonau y mae rheoliad 49A(1) neu reoliad 49B(1) yn gymwys iddynt."

Amendment of regulation 49

5. In regulation 49 (application of Part 13), for paragraph (1) substitute—

"(1) This Part applies to service providers who are registered to provide an accommodation-based service where—

(a) (i) the service involves the provision of accommodation to five or more individuals, and

(ii) the premises used for the provision of the service fall within one of the categories in paragraph (2), or

(b) the service providers are persons to whom regulation 49A(1) or regulation 49B(1) applies."

(**1**) 2014 dccc 4.

(**1**) 2014 anaw 4.

6. Ar ôl rheoliad 49 (cymhwyso Rhan 13) mewnosoder—

"**Ailgyflunio mangre**

49A.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth—

(a) sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth, a

(b) nad oedd Rhan 13 yn gymwys iddo mewn perthynas â'r man hwnnw yn ystod cyfnod pan oedd y gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bedwar neu lai o unigolion.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fo darparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo wedi cael caniatâd am amrywiad i'w amodau cofrestru ar neu ar ôl 31 Mawrth 2024 o ganlyniad i ailgyflunio mangre a ddefnyddir mewn perthynas â'r man, ac mai effaith yr amrywiad yw y gellir darparu llety yn y man hwnnw i bump neu ragor o unigolion, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gydymffurfio â gofynion rheoliadau 50 i 54 mewn cysylltiad â'r man hwnnw.

(3) Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau 50 a 51 mewn perthynas â'r man hwnnw ond yn gymwys i unrhyw ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer unigolion.

(4) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 49B—

ystyr "ailgyflunio mangre" ("*reconfiguration of premises*") yw ad-drefnu neu newid cynllun ffisegol presennol y fangre er mwyn cynyddu nifer yr unigolion y gellir darparu llety iddynt yn y gwasanaeth.

49B.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth—

(a) sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth, a

(b) nad oedd Rhan 13 yn gymwys iddo mewn perthynas â'r man hwnnw yn ystod cyfnod pan nad oedd y fangre a ddefnyddir gan y gwasanaeth yn dod o fewn Categori A, B nac C a phan oedd yn cynnwys darparu llety i bump neu ragor o unigolion.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fo darparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo wedi cael caniatâd am amrywiad

6. After regulation 49 (application of Part 13) insert—

"**Reconfiguration of premises**

49A.—(1) This regulation applies to a service provider—

(a) who is registered to provide an accommodation-based service at a place specified as a condition to the service provider's registration, and

(b) to whom Part 13 did not apply in relation to that place during a period when the service involved the provision of accommodation to four or fewer individuals.

(2) Subject to paragraph (3), where a service provider to whom this regulation applies has been granted a variation to their conditions of registration on or after 31 March 2024 as a result of the reconfiguration of premises used in relation to the place, and the effect of the variation is that accommodation can be provided at that place to five or more individuals, the service provider must comply with the requirements of regulations 50 to 54 in respect of that place.

(3) The requirement to comply with regulations 50 and 51 in relation to that place only applies to any additional bedrooms for individuals.

(4) In this regulation and regulation 49B—

"reconfiguration of premises" ("*ailgyflunio mangre*") means rearranging or altering the existing physical layout of the premises to increase the number of individuals who can be accommodated at the service.

49B.—(1) This regulation applies to a service provider—

(a) who is registered to provide an accommodation-based service at a place specified as a condition to the service provider's registration, and

(b) to whom Part 13 did not apply in relation to that place during a period when the premises used by the service did not fall within Category A, B or C and involved the provision of accommodation to five or more individuals.

(2) Subject to paragraph (3), where a service provider to whom this regulation applies has been granted a variation to their conditions of

i'w amodau cofrestru ar neu ar ôl 31 Mawrth 2024 o ganlyniad i ailgyflunio mangre a ddefnyddir mewn perthynas â'r man, ac mai effaith yr amrywiad yw bod nifer yr unigolion y gellir darparu llety ar eu cyfer yn y man hwnnw wedi ei gynyddu, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gydymffurfio â gofynion rheoliadau 50 i 54 mewn cysylltiad â'r man hwnnw.

(3) Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau 50 a 51 mewn perthynas â'r man hwnnw ond yn gymwys i unrhyw ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer unigolion."

registration on or after 31 March 2024 as a result of the reconfiguration of premises used in relation to the place, and the effect of the variation is that the number of individuals for which accommodation can be provided at that place is increased, the service provider must comply with the requirements of regulations 50 to 54 in respect of that place.

(3) The requirement to comply with regulations 50 and 51 in relation to that place only applies to any additional bedrooms for individuals."

Diwygiadau amrywiol

7. Yn rheoliad 16(2) (adolygu cynllun personol), yn lle "plentyn sy'n derbyn gofal" rhodder "plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol".

8. Yn rheoliad 51(2) (gofynion ychwanegol – maint ystafelloedd), ar ôl "gyson" mewnosoder atalnod llawn a hepgorer "oherwydd natur ei anabledd."

Miscellaneous amendments

7. In regulation 16(2) (review of personal plan), for "looked after child" substitute "child who is looked after by a local authority".

8. In regulation 51(2) (additional requirements – room sizes), after "basis" insert a full-stop and omit "because of the nature of their disability."

Darpariaeth drosiannol

9. Mae rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn parhau i gael effaith heb y diwygiadau a wneir gan reoliad 6 mewn perthynas â man lle y darperir gwasanaeth llety ac sy'n destun cais i amrywio cofrestriad gan y darparwr gwasanaeth o dan adran 11 o'r Ddeddf pan wnaed y cais i Weinidogion Cymru ar neu cyn 30 Mawrth 2024 ond—

(a) nad yw Gweinidogion Cymru wedi ei benderfynu erbyn y dyddiad hwnnw, neu

(b) ei fod wedi ei benderfynu gan Weinidogion Cymru ond ei fod yn destun apêl gan y darparwr gwasanaeth o dan adran 26 o'r Ddeddf ac nad yw'r apêl wedi ei phenderfynu erbyn y dyddiad hwnnw.

Transitional provision

9. Regulation 49 of the Regulated Services Regulations continues to have effect without the amendments made by regulation 6 in relation to a place at which an accommodation-based service is provided and which is the subject of an application for variation of registration by the service provider under section 11 of the Act where the application was made to the Welsh Ministers on or before 30 March 2024 but—

(a) has not been determined by the Welsh Ministers by that date, or

(b) has been determined by the Welsh Ministers but is the subject of an appeal by the service provider under section 26 of the Act and the appeal has not been determined by that date.

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
20 Mawrth 2024

Deputy Minister for Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
20 March 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

© Crown copyright 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39558-7



£8.14